Mark Drakeford AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol

21 Hydref 2016

Annwyl Mark

**Y Bil Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru)**

Diolch am ddod i gyfarfod y Pwyllgor ddydd Llun 3 Hydref 2016 i gynorthwyo ein gwaith craffu ar y Bil Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru). Rwyf hefyd yn cydnabod derbyn eich llythyr, dyddiedig 18 Hydref 2016.

Yn ystod y cyfarfod, gwnaethoch ddweud bod y pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth yn y Bil yn cyfateb i *Ddeddf Treth Dir y Dreth Stamp 2015* a *Deddf Treth Trafodiadau Tir ac Adeiladau (Yr Alban) 2013*. Byddem yn croesawu eglurhad pellach o sut y mae'r 33 o bwerau i wneud rheoliadau a gorchmynion yn y Bil yn cymharu â'r ddeddfwriaeth sydd ar waith yn San Steffan a Senedd yr Alban. Os yw'r pwerau'n wahanol rhwng deddfwrfeydd, byddem yn ddiolchgar o gael eglurhad o pam yr ydych wedi dewis gweithdrefn wahanol.

Gwnaethom hefyd eich holi ynghylch y defnydd o naill ai'r weithdrefn negyddol neu'r weithdrefn gadarnhaol o dan adran 76(1), yn dibynnu ar yr amgylchiadau. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi y rhagnodir y weithdrefn gadarnhaol pan fo Gweinidogion Cymru yn dod i'r casgliad y gallai effaith y rheoliadau arwain at osod neu gynyddu atebolrwydd treth unigolyn. Rydym yn aneglur o hyd ynghylch sut y caiff y farn hon ei ffurfio. Pa dystiolaeth neu enghreifftiau a gaiff eu defnyddio i farnu a yw'r rheoliadau yn cael yr effaith o osod neu gynyddu atebolrwydd treth?

Yn olaf, diben adran 76(2) o'r Bil yw caniatáu diwygio deddfwriaeth sylfaenol drwy reoliadau. Mae'n egwyddor hirsefydlog fod rheoliadau sy'n diwygio deddfwriaeth sylfaenol yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech egluro pam mai'r bwriad yw na chaiff y weithdrefn gadarnhaol ei defnyddio ar gyfer rheoliadau a wneir o dan adran 76(2).

Byddai'n ddefnyddiol cael ymateb i'r llythyr hwn erbyn 3 Tachwedd 2016.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Simon Thomas AC, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid.

Yn gywir

Huw Irranca-Davies

**Cadeirydd**